


DME: Rhwydwaith Mewnol – Ffordd Liniaru yr M4 – Taflen Weithgaredd (3A)

Opsiynau

- Rhowch y teitl **Opsiynau**.
- Beth yw'r NDF?
- Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? Defnyddiwch yr amcanion i'ch helpu.
 - Cymru Lewyrchus
 - Cymru Hydwyth
 - Cymru Iachach
 - Cymru fwy Cydradd
 - Cymru â Chymunedau Cydlynol
 - Cymru â Diwylliant Bywiog ac iaith Gymraeg Llwyddiannus
 - Cymru Gyfrifol drwy'r Byd i Gyd
- Lluniwch dabl i'ch helpu i ddisgrifio'r tir naill ochr i'r ffordd ddu arfaethedig.
 - Defnyddiwch y defnydd o dir canlynol i'w gwblhau:
 - Tir Amaeth
 - Diwydiant
 - Ffyrdd
 - Dŵr
 - Coetir
 - Tai

O	I	Gogledd	De
Cyffordd 23	Cyffordd 23A		
Cyffordd 23A	Parc Ewro Gwent		
Parc Ewro Gwent	Solutia Chemical Works		
Solutia Chemical Works	Afon Wysg/Dociau Casnewydd		
Afon Wysg/Dociau Casnewydd	Casbach		

- Pa rannau o Gymru sydd â lleoliadau â'r amddifadedd gwaethaf, fel y dangosir ar fap M.A.L.I.C.



- Beth ydych chi'n meddwl oedd ystyr Prif Weinidog diwethaf y DU (David Cameron) wrth iddo ddisgrifio'r M4 o gwmpas Casnewydd fel:

“troed dros gorn gwddf economi Cymru”.

- Ceisiwch roi'r dyfyniad yma gan AS Casnewydd Paul Flynn am y ffordd las yn eich geiriau eich hunain:

“Byddai ‘datrysiad’ y ffordd las yn waeth i Gasnewydd na dim newid o gwbl.

Byddai cynllun y Ffordd Las yn dod â thagfeydd tua’r flwyddyn 2004 yn ôl, a gyda phroblemau ychwanegol, byddai’n gwneud i Gasnewydd fod yn gymysgedd o lygredd a thagfeydd.”

- Lluniwch dri thabl i'ch helpu i drefnu eich syniadau am y pethau da a drwg ar gyfer pob opsiwn

Ffordd Ddu	
Da	Drwg

Ffordd Las	
Da	Drwg

Gwneud Dim	
Da	Drwg

- Ysgrifennwch sgorau dadansoddi deubegynol ar gyfer pob opsiwn mewn tabl. Efallai gwnewch chi hyn fel dosbarth, gyda'ch athro/athrawes yn eich helpu.

Opsiwn	Sgôr dadansoddi deubegynol
Ffordd Ddu	
Ffordd Las	
Gwneud Dim	

- Lluniwch siart far o'ch sgorau dadansoddi deubegynol.

- Ar sail eich canlyniadau, rhowch yr opsiynau yn nrhefn o'r brig (y gorau) yn rhif 1 i'r bôn (y gwaethaf) yn rhif 3.
 - Rhif 1
 - Rhif 2
 - Rhif 3